# Gofynnir am Fynegiannau o Ddiddordeb

Cyfle Datblygu Cyffrous ym Mhorth Tywyn

1.53 hectar / 3.7 erw o sir sy'n addas ar gyfer Dosbarth A1 Bwyd Datblygiad Manwerthu neu Ddefnydd Cymysg




Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR **arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru/eiddo

YOUR COUNCIL **doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales/property

## Lleoliad

Mae'r safle yn agos i Ganol Tref Porth Tywyn ac yn elwa ar drafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau ffyrdd ardderchog. Mae'r rheilffordd a'r orsaf wedi'u lleoli i'r gogledd o'r safle ac mae Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol y B4311 yn ffinio â'r safle datblygu i'r de.
Mae Harbwr Porth Tywyn wedi'i leoli ymhellach i'r de o'r safle ac mae'n rhan o Barc Arfordirol y Mileniwm, sydd wedi ennill gwobrau lu.

## Disgrifiad

Mae'r safle'n cynnwys 1.53 hectar / 3.7 erw o dir sy'n addas ar gyfer datblygiad Dosbarth A1 Bwyd neu Ddefnydd Cymysg. Mae'r safle yn barsel o dir siâp afreolaidd sydd ar hyn o bryd yn cynnwys glaswelltir yn bennaf, yn ogystal â choed a llecyn graean bach. Mae'r ffordd fynediad i Adeiladau Neptune yn croesi'r safle ac mae Nant Dyfaty wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r safle. Mae'r safle datblygu yn rhan o Brif Gynllun Porth Tywyn gyda chyfleoedd datblygu amrywiol ar gyfer datblygu masnachol, manwerthu, twristiaeth a phreswyl ac mae'r cyfleoedd hyn yn brosiect adfywio sylweddol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Cynllunio / Datblygu Posibl

Mae'r safle wedi'i leoli o fewn terfynau datblygu Porth Tywyn fel y'i diffinnir gan Bolisi CDLl GP2 (Terfynau Datblygu) gyda dyraniad defnydd cymysg. Mae'r safle wedi elwa o'r blaen o gael caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer darparu storfa fwyd Dosbarth A1 ac felly ystyrir bod egwyddor datblygiad o'r fath yn dderbyniol ac yn cyd-fynd â dyheadau'r Awdurdod ar gyfer adfywio Porth Tywyn. Mae arfarniad cynllunio wedi'i baratoi gan Asbri Planning sy'n nodi ffactorau allweddol ac adroddiadau sy'n ofynnol i sicrhau caniatâd cynllunio a gellir gweld copi o'r adroddiad hwn drwy'r ddolen isod : https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/qaqlano2/planning-appraisal-s25184-burry-port-3.pdf

## Amodau'r Ddaear / Adroddiadau Hanesyddol

Paratowyd nifer sylweddol o adroddiadau sy'n ymwneud ag amodau'r ddaear, asesiad trafnidiaeth, ecoleg, llifogydd ac ati yn flaenorol ar gyfer ceisiadau cynllunio hanesyddol ac er y bydd angen eu diweddaru, fel y cadarnhawyd gan yr Arfarniad Cynllunio, maent yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol a gellir gweld y rhain hefyd drwy'r ddolen isod : Datganiad Draenio Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Asesiad Ecolegol Datganiad Cludiant Cynllun Teithio Asesiad Ansawdd Aer Adroddiad Archaeolegol Asesiad Sŵn Datganiad Amgylcheddol – Adroddiad Gyflwr Tir Cyflwr Tir

## Telerau'r Gwerthu

Bydd y Cyngor yn rhoi contract amodol yn y lle cyntaf, gan alluogi datblygwr i sicrhau caniatâd cynllunio, a phrydles 250 mlynedd yn dilyn hynny i'r datblygwyr a ffefrir ar sail tâl premiwm sengl sy'n daladwy pryd y derbynnir y brydles, a rhent hedyn pupur ar ôl hynny.

## Dull Gwaredu

Gwahoddir darpar ddatblygwyr i gyflwyno mynegiannau o ddiddordeb yn y safle i'r cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad isod erbyn 12 canol dydd ar 30ed Medi 2026. Dylid cynnwys:

- Disgrifiad byr o'r datblygiad o ran y defnydd tir.
- Brasluniau o'r cynlluniau ar gyfer datblygu'r safle.
- Manylion ynghylch cefndir y datblygwyr a chynlluniau tebyg a gyflawnwyd ganddynt.
- Cynnig ariannol ar sail premiwm sengl sy'n daladwy pan dderbynnir y brydles 250 mlynedd a rhent hedyn pupur sy'n daladwy ar ôl hynny.
- Rhaglen ar gyfer datblygu, gweithredu a chwblhau'r cynllun arfaethedig.
- Manylion am y cyllid.
- Amserlen bendant ar gyfer y datblygiad.

Gwerthusir y cyflwyniadau ar sail y cynlluniau a'r cynnig ariannol. Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr.

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Peter Edwards Rheolwr Prisiadau
Ffôn: 01267 246254
pedwards@sirgar.gov.uk


Gruffydd A Mathias Swyddog Morlan Elli
Ffon : 07971 234992
gamathias@sirgar.co.uk

Cyngor Sir Caerfyrddin,
Neuadd y Sir,
Caerfyrddin,
SA33 5DR.

Bydd angen i chi weithredu'n ddwyieithog yn unol â pholisïau'r Cyngor gan gynnwys rhoi arwyddion dwyieithog y tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Mae gwasanaeth cymorth a chyngor ar gael yn ogystal â chyfieithu a phrawf-ddarllen am ddim. I gael gwybodaeth, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar 'Y Gymraeg Mewn Busnes'.

I gael gwybodaeth a chymorth o ran gweithio'n ddwyieithog, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar 'Y Gymraeg Mewn Busnes'.

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes y cyfnewidir contractau. Nid oes rheidrwydd arno i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig




Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Ref. -

Date/Dyddiad - 27/10/2016

Scale/Graddfa - 1:1000 @ A3

N